

Cwmni

Rhifyn 178

Pris 80c

Rhagfyr 2015



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i Chi i Gyd



Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428
07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis **Golygydd Lluniau:** Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Digwyddiadur: Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eleri Betts, Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W. Williams

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Gwahoddiad i enwebu ar gyfer Tlws John a Ceridwen

Ydych chi'n adnabod rhywun yn yr ardal sydd wedi gwneud gwaith gwyh gyda phobl ifanc? Mae'r Urdd nawr yn croesawu enwebiadau ar gyfer Tlws John a Ceridwen – tlws a roddir yn ystod Eisteddfod yr Urdd i unigolyn sydd neu wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru.

Mae angen i'w gwaith fod trwy gyfrwng y Gymraeg, neu gyda ieuenctid sy'n dysgu'r iaith. Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid, ond ei fod yn waith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i oriau ysgol. Gall fod gydag unrhyw fudiad ieuenctid.

Mae Gwobr John a Ceridwen yn cael ei rhoi gan Dewi a Gerallt Hughes er cof am eu rhieni, John a Ceridwen, oedd yn weithgar iawn ym maes ieuenctid. Mae'r wobwr yn cael ei chynnig ers 23 mlynedd.

Yn ôl Dai Bryer, Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymunedol yr Urdd, "Mae gwaith gwyh yn cael ei wneud ym mhob rhan o Gymru gan weithwyr ieuenctid a dyma gyfle iddynt gael cydnabyddiaeth am eu gwaith. Boed yn gwneud gwaith diwylliannol, dyngarol, gyda phobl anabl, gwaith awyr agored neu beth bynnag – rydym eisiau clywed am waith arweinwyr eich ardal chi! Y cyfan sydd angen ei wneud yw cwblhau ffurflen gais syml, yn egluro'r gwaith da sy'n cael ei wneud."

Mae ffurflen gais ar gyfer enwebu ar gael trwy gysylltu gydag Enfys Davies ar 01239 652 163 neu enfys@urdd.org. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw yr 8fed o Ionawr, 2016.

Am fwy o fanylion, cysylltwch gydag Angharad Prys – angharadprys@urdd.org / 01248 672 107 / 07976 330361

Y Llun ar y Clawr: Y Swyddfa Bost yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan mewn acrylic, wedi'i baentio gan Mrs Mary Jones, Caerffili.

Taith Gerdded Hynod Iawn

Ie, taith gerdded i'w chofio oedd honno a ddechreuodd un bore Mercher ym mis Hydref yng Ngwern y Domen, ardal y Fan, Caerffili. Un arall yn y gyfres Teithiau Cerdded a gynhelir gan ein Menter Iaith oedd hon.

Mae'r mynediad i Wern y Domen ar y ffordd i Rydri o Gaerffili. Ond wrth droi i'r chwith wedi pont Bedwas a heibio i Badgers' Wood gwelir y troad i'r chwith ymhen rhyw ganllath. Safle hanesyddol o bwys yw Gwern y Domen gan ei bod yn debyg mai safle claddu'r meirwon yn ystod cyfnod cyn y Rhufeiniaid oedd hon.



Beth sydd o ddiddordeb i haneswyr mwy diweddar yw croesi'r rheilffordd a arferai arwain o Gaerffili i lawr i Fachen. Yn ymyl y bont hon mae dau bwll yn sydd o bwys mawr i naturiaethwyr gan eu bod yn gartref i'r fadfall gribog fawr os gwnewch chi dderbyn hynny yn gyfieithiad o *greater crested newt*. A chan bo'r creadur hwnnw yn un prin efallai y daw eto i achub y gymdogaeth drwy atal y bwriad i adeiladu mwy eto o dai yn yr ardal hon. Hefyd, dengys ein llyfrau hanes bod gorsaf fach neu "*halt*" yn arfer bod yn ymyl y bont. Agorwyd hon ym mis Hydref 1908 a'i chau ar yr 17eg o Fedi 1956.



Mae'r daith gerdded o Wern y Domen i Blasty'r Fan yn gyfle gwych i fwynhau golygfeydd dros dref Caerffili ac mae'n werth gwneud yr ymdrech er mwyn cyrraedd safle Castell y Fan. Codwyd Plasty'r Fan ger y safle gan y Lewisiaid ac erbyn hyn fe rannwyd yr adeilad crand rhwng nifer o randai neu *apartments* ac mae sawl tŷ braf yn y cyffiniau hyn uwchben Plas Tŷ Mawr ym mhen pellach Heol y Fan.

Ond ar y tir preifat hwn mae yna adeilad o ddiddordeb neilltuol iawn. Oherwydd mae'r colomendy sy'n dal i sefyll yno yn un o'r rhai mwyaf ym Mhrydain. Er nad oedd modd troedio'r tir preifat synnwyd y grŵp cerdded gan faint yr adeilad hwn. Amcangyfrifwyd bod yn rhaid bod lle i dros saith cant o adar yma. Ond, o ddarllen y manylion, gwelwyd bod lle i dros fil o golomennod yno. Mae'n amlwg felly bod trigolion oes o'r blaen yn hoff iawn o gig ffres!

Gwelir yn y llun hwn a gafwyd o'r tu mewn i'r colomendy tarddiad y gair "pigeon hole". Mae pob un o'r tyllau hyn ar siâp y llythyren "L" fel petai lle i'r adar anffodus hyn allu nythu'n dawel. Mae'n drueni bod yr adeilad ar dir preifat gan y byddai'n braf petai mwy o bobol yr ardal yn gallu ymweld â'r safle. Hefyd, mae'n hanfodol bwysig cymryd camau i ddiogelu ac adfer y trysor hwn sy'n rhan o'n treftadaeth.



Defnydd newydd i Hen Lyfrgell Caerffili



Bydd canran uchel o ddarllenwyr ‘Cwmni’ wedi bod yn yr hen lyfrgell wrth Barc Morgan Jones, a gofyn beth sy’n digwydd i’r adeilad. Croeso felly i fusnes newydd i’r dref sy’n siop goffi, yn ganolfan gymdeithasol, yn oriel luniau, ac yn lle chwarae i blant. Angela ac Edward Crabtree sy’n rhedeg y busnes newydd hwn ac mae’r cyfan a nodir uchod yn digwydd yno. Yn ychwanegol at hynny, mae modd benthyc a chyfnwid llyfrau yno, defnyddio a benthyc gêmiau bwrdd, a phrynu gwaith crefft. Merch o Gaerffili yw Angela ac mae hi a’i theulu yn byw yn y dref ac yn anfon eu merch hynaf i Ysgol Gymraeg Caerffili.

Mae’r ddwy ifancaf yn edrych ymlaen at fynd i’r Cylch Meithrin lleol.

Mae’n bosib llogi ystafell ddigwyddiadau i gynnal pwyllgor neu gyfarfod ac mae’r cynghorydd lleol James Pritchard a Swyddog Cefnogaeth yn y Gymuned yno ar awr benodol bob mis. Ar fore Gwener bydd grŵp i blant bach yn cyfarfod dan enw ‘Jingle Jangle Jo’, a bydd Clwb Llyfrau Cymraeg yn cyfarfod ar ddydd Llun cyntaf bob mis dan arweiniad Jan Penney. Bydd y cyfarfod cyntaf ar Ragfyr 7fed.

Nid ydynt wedi gofyn am nawdd o unrhyw ffynhonnell, a’u nôd yw buddsoddi’r elw o’r fenter, wedi talu eu costau, yn ôl yn y gymuned. Gellir cysylltu gyda hwy ar eu gwefan sef www.theoldlibrary.caerphilly.co.uk ac mae ganddynt dudalen ar y gweplyfr ac ar Trydar. Rhif ffôn yr Hen Lyfrgell yw 029-20885253.

Mae Angela ei hun wedi dechrau dysgu siarad Cymraeg ac yn awyddus i weld mwy o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio yn y ganolfan. Dyma le hwylus i fynd ar ôl bod am dro yn y parc, neu i drefnu cwrdd a chyfeillion am banded o de neu goffi gyda dewis helaeth o gacennau cartref. Mae croeso cynnes yn eich aros.

Denzil John


Dwy Enedigaeth

Braf oedd derbyn y newyddion i Alun, mab Anne Evans, Bryn Siriol, a’i wraig Beca groesawu dyfodiad Ella Haf, chwaer fach i Oliver, sydd erbyn hyn yn ddwy flwydd oed. Mae’r teulu bach erbyn hyn wedi ymgartrefu ym Mhenllergaer y tu allan i Abertawe. A nain Caerffili, wrth gwrs, wrth ei bodd!



Ella Haf

Llawenydd hefyd oedd cael gwybod bod Moira a Huw Thomas, Castle Park, wedi cael wŷr newydd. Morgan Gethin Thomas yw hwn ac mae’n ail fab i Emyr a Sam Thomas. Mae’r newydd ddyfodiad yn frawd bach i Elis ac yn nai i Doctor Eleri Thomas sy’n ymgynghorydd meddygol ym Mhen-y-Bont. Athro’r Gymraeg yw Emyr yn ardal Porth Talbot.



Posau’r Plant

Allwch chi weld y gwahaniaeth rhwng y llun ar yr ochr dde a’r llun ar yr ochr chwith?

Wedi i chi ddod o hyd i NAW peth gwahanol trowch y dudalen i weld yr atebion o dan y limrigau yn y dudalen nesaf ond un.



Patagonia: Ail Ran hanes ymweliad Bethan â'r Wladfa



Cyn perfformio ym Mhorth Madryn cawsom gyfle i weld morfilod yn y Bae Newydd ger Porth Madryn. Roedd cannoedd o forfilod wedi dod i greu babis neu roi genedigaeth. Aethon ni hefyd i weld man glanio Y Mimosa, a'r ogofau ble mae stori fod y mewnfudwyr wedi cysgu eu noson gyntaf yno i gysgodi rhag y tywydd oer gaeafol. Fe wnaeth y cast ganu gân o'r sioe; 'Anthem Patagonia' ar draeth y glanio, gyrrodd hyn iasau i lawr fy nghefn. Roedd y perfformiad y noson honno yn hollol emosiynol wrth i'r gynulleidfa a'r criw deimlo holl emosiynau'r daith. Yn sicr roedd perfformio ym Mhorth Madryn wedi i ni ymweld â'r ogofau wedi rhoi sail newydd i'r perfformiad.

Aethon ni i ymweld â'r fynwent tra yn nhref Y Gaiman. Ar y beddau roedd enwau nifer o gymeriadau'r ddrama. Gwnaeth atgoffa pob un ohonom ni mai hanes oedd stori'r ddrama, hanes go iawn am griw o Gymru. Nid oedd dim byd yn bodoli yn y fro yma cyn i'r Cymry ddod, ac mae llawer o ddatblygu wedi bod dros y 150 mlynedd diwethaf. Ar un o'r strydoedd cefn yn Y Gaiman mae amgueddfa fach, yn llawn o hanes y Cymry cyntaf, hen organ, haearn smwddio, blancedi. Mae enwau Cymraeg i'w gweld ar siopau yn y dref, ar y bwytai, tai te, siop deganau! Yma i fi roedd dylanwad y Cymry yn fwyaf amlwg. Yn Y Gaiman gwnaethon ni brofi ein *asado* cyntaf hefyd. Dull arbennig o goginio cig oen yw *asado*, ac mae'r cig yn arbennig!



Er mwyn teithio draw at Gwm Hyfryd, ochor draw i Batagonia, bu'n rhaid i ni deithio ar draws y paith, siwrne naw awr. Am daith!! Roedd yr anialwch o'n hamgylch yn ail-greu taith y Cymry tuag at eu bywyd newydd. Gwelsom anifeiliaid o bob math ar ein ffordd, megis ceffylau, fflamingos a *guanacos*, a gwelsom *gauchos* hefyd, cowbois Patagonia. Wrth i ni gyrraedd Esquel, daeth mynyddoedd mawr gwyn yr Andes i'r golwg.

Yn Esquel fe wnaethon ni berfformio ac roedd teuluoedd Michael a Ryan yn y gynulleidfa. Roedd y gymuned mor falch o'r ddau, wedi dysgu Cymraeg a mentro i Gymru i fod yn rhan o'r prosiect arbennig yma. A ni'r cast, criw a staff mor falch o'r ddau hefyd. Dyma oedd fy hoff le i. Ges i gyfle i fynd ar gefn ceffyl ar ffarm teulu Ryan, teulu sydd yn ddisgynyddion Michael D. Jones ei hun. Y dref olaf i ni ymweld â hi oedd Trefelin, y man cyntaf i'r Cymry sefydlu yng Nghwm Hyfryd. Mae amgueddfa newydd yno hefo hanes y dref, sydd yn ddiddorol iawn. Yma perfformiodd y criw'r sioe olaf, ac ar ddiwedd y sioe gofynnwyd i ddisgynyddion y Mimosa sefyll ar eu traed. Wel wir, dyma pryd wnes i deimlo emosiwn cryf iawn wrth i'r hen a'r ifanc sefyll mewn balchder, roeddwn i'n beichio crio ar ôl pythefnos emosiynol iawn!

Roedd pob eiliad o'r daith yn anhygoel. Gallaf wneud dim mwy na annog mwy o bobl i gefnogi gwaith Cymry Cymraeg Patagonia i gadw'r iaith a'r diwylliant yn fyw yno. Mae eu hanes nhw'n rhan o'n hanes ni.

LIMRIGAU!!!!!!!

Y llinell a osodwyd ar gyfer cystadleuaeth y limerig yn Eisteddfod y Cymoedd eleni oedd:

“Aeth Gwenda i'r gawod un noson”

Cododd nifer o feirdd i'r her o lunio limerig a chafwyd cerddi Gweddus, Lled Weddus a rhai Cwbl Anweddus! Cewch chi, y darllenwyr, eu gosod yn y categori priodol!

Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Heb gloi y drws, am beth gwirion.
Ond pan ddaeth Dafydd Islwyn
I'r bathrwm yn sydyn
I'w feddwl daeth llu o atgofion.

Radox

Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Cyn mynd i weld hen ffrind – y postmon;
Roedd e'n ddyn ifanc del
Yn ei thrin hi yn swel –
A rhoi “First Class Delivery” yn gyson!

Llais y Lli

Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Wedi i Gymru guro'r Saeson.
Ei dychymyg yn fyw
Gwelodd *Gats* wrth y llyw
A'r cwpan yn llawn i'r ymylon.

Cefnogwr


Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Ond llithrodd wrth sefyll ar sebon.
Pan ddaeth ato'i hun
Roedd clais ar ei chlun
A thatŵ ar ei thîn yn dweud “Digon”.

Yn y Slips

Â'i phen yn llawn “beirdd a chantorion”
Aeth Gwenda i'r gawod un noson
“Llion Roberts,” medd hi
“Sydd orau gen i.”
A dyna i chi ddigon o sebon.

Seb Blatter

(Llion Roberts oedd y beirniad, wrth gwrs!)



Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Pan lithrodd ar far mawr o sebon,
Gwnaeth gymaint o stŵr
Fe ruthrodd y gŵr
A'i gweld hi mewn môr o helbulon.

Mr Urdd

Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Yng nghwmni chwe troedfedd o blismon
'Rôl cusan pum munud
Daeth stop ar bob symud
Tra'n holi ble gollodd ei drynion.

Mr Urdd

Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Pan ganwyd y gloch gan gymdogion –
Atebodd heb feddwl
Datguddiodd y cwbl,
Bu'r ffwlbri yn hwyl i'r plwyfolion.

Mr Urdd

Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Roedd coryn mawr du ar ei sebon
Rhoddodd uffern o sgrech
O ben sêr y lle chwech –
Fe'i chlywyd bob cam i Gaernarfon.

Twm Siôn Cati

Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Roedd pry copyn hyll ar ei sebon.
Ond pan welodd ei gwep sur
Oedd o dan yr holl golur,
Bu farw'r pry copyn o ofon.

Twm Siôn Cati

Aeth Gwenda i'r gawod un noson
Roedd pry copyn hyll ar ei sebon.
Ond pan welodd ei chyflwr
Heb y mwgwd o bowdwr.
Bu farw'r pry copyn o ofon.

Twm Siôn Cati

Atebion Posau'r Plant

Mae'r llun yn dangos y NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun.

Sawl un gawsoch chi?

Newyddion Ysgol Gymraeg Cwm Derwen

Ar gychwyn blwyddyn newydd hoffwn ddiolch i hoff staff a phlant yr ysgol am eu gwaith caled yn ystod ein harolwg. Rydym yn hapus iawn efo'r dyfarniad ac yn barod i wynebu'r flwyddyn academaidd newydd.



Dathlu

Dathlwyd llwyddiant y disgyblion ar sawl achlysur dros yr hanner tymor diwethaf. Cafodd rhai disgyblion y fraint a'r anrhydedd o rannu te prynhawn â'r Maer, Leon Gardiner. Roedd gofyn i ddisgyblion Cwm Derwen greu poster fel arf i geisio goresgyn traffig o amgylch ein hysgol ac ysgogi gyrrwyr i deithio ar gyflymdra o 20mya. Ffion Young enillodd y gystadleuaeth, ac oherwydd eu hymdrech, rhoddwyd clod arbennig i Erin, Olly, Vinnie, Thomas a Tia. Braf iawn oedd clywed gan Ffion eu bod: "...wedi mwynhau ac eisiau mynd draw am sgon eto". Er dweud hyn doedd Olly "...ddim yn hoffi'r sgon, felly cefais frechdan ychwanegol". Braf iawn oedd gweld eu brwdfrydedd tuag at gyfarfod y Maer.

Chwaraeon

Rydym wedi cael hanner tymor prysur iawn ac nid yw'r tywydd wedi effeithio llawer ar ein parodrwydd i gystadlu. Braf oedd gweld llawer o ddisgyblion brwd yr ysgol yn cystadlu ymhlith y clwstwr mewn Gymnasteg, Rygbi, Nofio, Pêl Rwyd a Phêl Droed.



Digwyddiadau

Mae'r athrawon wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr hanner tymor yn cynnal nosweithiau Cymdeithas Dysgu Cwm Derwen, sydd yn hwyluso'r pontio ac yn goresgyn unrhyw bryderon sydd gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 3. Rydym yn cynnal y nosweithiau i rieni a disgyblion ym Mlwyddyn 3 bob nos Iau. Cawsom gyfle i gynnal noswaith ddarlenn i rieni disgyblion yr ysgol gyfan. Nod y noswaith oedd rhoi syniadau am adnoddau, technegau a chwestiynau posibl i rieni er mwyn rhoi cymorth i'w plant. Roedd y rhieni yn falch iawn ac wedi ymateb yn dda i'r digwyddiad.



Cafodd blwyddyn 6 fodd i fyw yn Nhŷ Tregoyd yn ystod Mis Hydref. Cawsant gyfle i wneud llawer o weithgareddau antur ac maent yn ysu cael dychwelyd yn ôl yn fuan. Cafodd blwyddyn 5 gyfle arbennig i ymweld â'r bwyty 'Chiquitos' a Sain Ffagan. Roedd y plant wrth eu bodd yn blasu'r bwydydd Mecsicanaidd gan eu bod yn dysgu am y wlad yn ystod y tymor.

Cafodd y Dosbarth Derbyn a blwyddyn 1 a 2 y fraint o ymweld â Phantomeim Martyn Geraint, 'Dacw Mam yn Dŵad'. Roedd y perfformiad yn wych ac roedd y plant wrth eu bodd.

Myfyrwraig

Hoffwn ddiolch i'n myfyrwraig, Paige Phillips am ei hymroddiad yn ystod y tymor. Bydd Miss Phillips efo ni nes y flwyddyn newydd a dymunwn bob lwc a llwyddiant iddi yn y dyfodol efo'i gyrfa.

MERCHED Y WAWR CWM RHYMNI



Ymwelodd nifer o aelodau'r gangen â Siop Ashburnes yn Ystrad Mynach ym mis Hydref, pan agorodd y siop yn arbennig i ni gyda'r nos. Cawsom groeso gan y perchnogion, Meryl a Gerard Lewis, a threuliwyd orig fach ddiddig yn chwilota ar y silffoedd gan ddod o hyd i nwyddau hyfryd, Cymreig eu naws, fel anrhegion ar gyfer y Nadolig yn ogystal â chardiau Cymraeg safonol. Doedd amryw ohonom ddim wedi sylweddoli bod siop debyg yn y pentre, felly defnyddiol i ni gyd oedd gweld beth sydd ar

werth yno er mwyn medru cefnogi yn y dyfodol. Aethom wedyn drws nesa i'r Viceroy of India i fwynhau pryd o fwyd a chymdeithasu. Roedd hon yn noson hwylus, heb i ni orfod teithio'n bell o'n cynefin.

Ymweliad â bwyty'r CLINK yng Nghaerdydd

Fel rhan o ymgyrch codi arian i Ferched y Wawr y De ddwyrain, trefnwyd te prynhawn ym mwyty'r Clink, drws nesa i Garchar Caerdydd. Ymunodd grŵp o ferched y cwm â dros 60 o aelodau y de ddwyrain i fwynhau oriau difyr. Rhoddwyd esboniad i ni o waith yr elusen gan Catrin Aherne, Cymraes ifanc, sy'n dal yn fyfyrwraig. Ond ar ôl cyfnod o brofiad gwaith yn y Clink, roedd wedi ei phlesio gymaint nes cafodd swydd barhaol yno. Cawsom fwynhad o wrando ar Sian Francis yn canu a chyfeilio iddi ei hun ar y piano. Daeth gwên i'n hwynebau wrth weld y carcharorion oedd yn gweini yn gwerthu tocynnau raffl Merched y Wawr. Roeddent hefyd yn gwerthu nwyddau megis cwpanau, llieniau sychu llestri ag ati, er mwyn codi arian i elusen *The Clink Charity*.

Mae llawer o ysgrifennu a darlledu wedi bod ynglŷn â'r gwaith da sydd yn digwydd ym mwytai'r Clink ar 4 safle dros Brydain, gan gynnwys yr un ar ein stepen drws yng Nghaerdydd. Nod y cynllun yw dysgu sgiliau newydd i garcharorion a'u paratoi am fywyd ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau, a lleihau'r tebygolrwydd o droseddu eto. Problem fwya'r system garcharu yw bod bron hanner y bobl yn ail droseddu o fewn blwyddyn o fod allan yn y byd mawr - a tua 75% yn ail droseddu o fewn 5 mlynedd. Ond mae'r fenter yma'n llwyddo lle mae llawer menter arall wedi methu; dim ond tua 12.5% sy'n ail droseddu ar ôl derbyn hyfforddiant o dan y fenter a'r elusen yma.



Mae'r bwyty yn cynnig bwydlenni diddorol am bris rhesymol, gan gynnwys bwydlen Nadoligaidd. Mae naws hyfryd, gartrefol, wresog yno - gallwch ymlacio'n syth ar ôl cyrraedd. Ond ni chynigir diod feddwol o fewn y bwyty.

Agorwyd y Bwyty Clink cyntaf yn ngharchar High Down, ar gyrion Sutton, yn 2009 ac erbyn hyn mae 'na 3 arall - Brixton, Caerdydd a Swydd Gaer. Menter ar y cyd yw'r bwytai rhwng y carchar, y Gwasanaeth Carchardai a'r elusen The Clink.

Edrychwn ymlaen at fynd yno eto, a'r tro hwn am bryd 3 chwrs, efallai fel grŵp o Ferched y Wawr Cwm Rhymini a'n ffrindiau. Cawsom groeso heb ei ail gan y carcharorion - roeddent yn serchog, yn broffesiynol a chymwynasgar.

Mae'n bosib gweld mwy am waith yr elusen ar y wefan www.theclinkcharity.org

Arddangosiad Coginio



Daeth Eluned Davies-Scott i Fethel, Caerffili, i roi arddangosiad coginio Nadoligaidd i ni. Yn enedigol o Lanrhaeadr-ym-mochnant, Sir Drefaldwyn, hyfforddwyd hi yn Ysgol Economeg y Cartref, Prifysgol Caerdydd, a tan yn ddiweddar bu'n Bennaeth Addysg Gymunedol yn Ysgol Uwchradd y Waunddyfal.

Mae hi'n llais cyfarwydd ar raglenni radio a dangosodd lun i ni o deisen Pudsey brydferth grëwyd ganddi ar gyfer cystadleuaeth rhaglen 'Plant mewn Angen'. Eluned sy'n cynnal cyrsiau

coginio poblogaidd Menter Caerffili yn wythnosol.

Dangosodd i ni sut oedd lleihau'r gwaith o baratoi bwydydd blasus, diddorol a gwahanol adeg yr Wyl. Gwnaeth lond lle o ddanteithion melys a sawrus, rhywbeth at ddant pawb, ac ar ôl blasu popeth oedd ar y bwrdd, adre â ni i roi tro ar greu rhyfeddodau ein hunain!

Soniodd Eluned am wahanol brofiadau ddaeth i'w rhan, gan gynnwys dweud iddi, dros y blynyddoedd, goginio cannoedd o bice, ayb, yn Sain Ffagan yn ffermdy Kennixton, adeilad o'r 17 a'r 18 ganrif, oedd heb nwy na thrydan ynddo, o flaen heidiau o ymwelwyr. Mewn amser symudwyd hi i safle lle'r oedd ganddi gyfleusterau modern - nefoedd ar y ddaear, meddai.

Trip i gegin Gareth Richards yn Llambod - Sadwrn, 18 Mehefin 2016

Awn i Llambed i dreulio diwrnod yng nghwmni Gareth Richards, cogydd poblogaidd iawn sydd wedi darlledu, ac yn arddangos mewn gwyliau bwyd dros Gymru, yn ogystal â chyhoeddi llyfrau ryseitiau. Yn ôl Gareth, cawn fwynhau 'Diwrnod ffordd o fyw - hyfrydwch a harddwch'. Byddwn yn gadael Ystrad Mynach/Caerffili tua 8.30 gan gyrraedd Cegin Gareth mewn pryd i gael disgled am 10.15. Bydd e'n cyflwyno arddangosiad coginio, ac yn dilyn hwn cawn fwyta pryd 3 chwr. Yn y prynhawn bydd arddangosfa trefnu blodau, yna disgled a gadael am adre oddeutu 5.00 pm. Byddwn yn trefnu cludiant maes o law - ond casglaf yr arian ar hyn o bryd - Pris y diwrnod yw £27.50. Cysylltwch â Gaynor - gaynorw555@gmail.com - neu ar 07984197629. Fe fyddai'n hyfryd cael eich cwmni.

Priodas Menna Hedd a Katherine



Ar ôl seremoni swyddogol yn Nhŷ Penallta ddiwedd Medi daeth teulu a ffrindiau ynghyd yn Gaveston Hall, West Sussex ar ddechrau mis Hydref am benwythnos o ddathlu ac ymfalchïo yn hapusrwydd Menna Hedd (merch Mair Roberts a'r Cynghorydd John Roberts) a Katherine Elizabeth Whatmore. Dathliad priodas tra gwahanol ydoedd gyda ffrindiau a theulu yn llongyfarch y cwpwl hapus gyda cherddi a straeon mewn seremoni cwbl anffurfiol. Coronwyd y cyfan gyda choelcerth fawr i dostio *marshmallows*.

Mae Menna yn enedigol o Ystrad Mynach ac yn gyn- ddisgybl Ysgol Gynradd Gymraeg Gilfach Fargod, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a phrifysgol John Moore's Lerpwl. Mae Katherine yn hannu o Farnham, Surrey a bu'n fyfyrwraig ym mhrifysgol Caerdydd.

Mae Menna yn gweithio i Connect Assist yn Nantgarw a Katherine yn dechnegydd fferyllol. Mae Mrs a Mrs Whatberts wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Mae'r cyfenw "Whatberts" yn gyfuniad o'r ddau gyfenw cyn priodi sef Whatmore a Roberts.

Arian ar Gael i Astudio trwy'r Gymraeg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig arian i'r rhai hynny sy'n dymuno dilyn cyfran o'u cwrs prifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2016.

Gall unrhyw ddarpar fyfyrwr wneud cais am ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg er mwyn derbyn hwb ariannol sylweddol yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol.



Cynigir hyd at [£3,000](#) i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio o leiaf 66% o'u cwrs trwy'r iaith a hyd at [£1,500](#) i rai sydd eisiau dilyn o leiaf 33% ohono trwy'r Gymraeg. Yn ychwanegol, mae [Ysgoloriaeth William Salesbury](#) o £5,000 ar gael i unigolyn sydd am astudio cwrs a gynigir yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg.

Mae cannoedd o gyrsiau ar draws prifysgolion Cymru yn gymwys i dderbyn yr arian a dylid sicrhau bod cwrs yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth cyn ymgeisio. Y dull gorau o wirio a yw cwrs yn gymwys yw trwy ddefnyddio'r [Chwilydd Cyrsiau](#) sydd ar wefan y Coleg Cymraeg neu trwy lawrlwytho'r [fersiwn Ap](#).

Un oedd yn falch o glywed bod Cemeg yn gymwys i dderbyn arian oedd Rhodri Williams, gafodd ei eni a'i fagu yn Gran Canaria ond sydd bellach yn astudio ym Mhrifysgol Bangor:

“Roedd derbyn arian gan y Coleg Cymraeg yn golygu fy mod yn gallu ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith sy'n debygol o wella fy sgiliau Cymraeg. Rwy'n falch fy mod i'n gallu siarad Cymraeg ond roedd ysgrifennu trwy'r Gymraeg yn brofiad newydd cyn dod i Fangor. Fuaswn i'n annog darpar fyfyrwyr i fanteisio ar y cyfleoedd i ddilyn rhan o'u hastudiaethau prifysgol trwy'r Gymraeg ac ymgeisio am yr arian a gynigir trwy'r ysgoloriaethau.”

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ysgoloriaethau israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2016 cysylltwch â Manon Llwyd-Bowen, Swyddog Datblygu Marchnata a Chyfathrebu, ar 01267 610414, neu e-bostiwrch m.llwyd-bowen@colegcymraeg.ac.uk

Cymru a Copenhagen - Cysylltiadau Cymreig y Ffisegydd Niels Bohr

Nos Lun 19eg o Hydref 2015 cawsom sgwrs ddiddorol dros ben gan Rowland Wynne am ffrwyth ei ymchwil ar wyliau diweddar i Denmarc. Aeth e a'r mathemategydd Gareth Ffowc Roberts i Copenhagen a threulio diwrnod yn archif y Ffisegydd Niels Bohr (1885-1962) gyda'r bwriad o ddysgu mwy am ei gysylltiadau Cymreig. Mae Niels Bohr yn cael ei gofio am ei waith arloesol yn creu model mathemategol o'r atom oedd yn gam enfawr ymlaen yn ein dealltwriaeth o sut mae'r bydysawd yn gweithio. Roedd Bohr yn un o wir fawrion Ffiseg ac mae ei waith yn rhan hanfodol o gwrs Ffiseg pob prifysgol.

Cysylltiad Cymreig cyntaf Rowland oedd Edwin Augustine Owen (1887–1973) o Flaenau Ffestiniog oedd yn gyfaill i Bohr yn labordy Cavendish yng Nghaergrawnt; mae nifer o'i lythyrau at Bohr yn yr archif. Aeth Owen ymlaen i fod yn Athro ym Mhrifysgol Bangor lle sefydlodd grŵp ymchwil arloesol yn arbenigo ar ffiseg metalaau. Mae ei lythyrau yn cynnwys sawl gwahoddiad i Bohr fynd gydag ef i Ogledd Cymru, ac yn wir fe aeth o leiaf unwaith.

Yna aeth Rowland ymlaen i sôn am lythyrau William Ewart Williams (1984-1966) o Rostryfan ger Caernarfon. Cyfarfu â Bohr tra roedd yn fyfyrwr ym Manceinion. Er i'w meysydd ymchwil ymbellhau wrth i Williams symud i'r UDA a gweithio i nifer o gwmnïau a dod yn ddyfeisiwr cyfoethog, roeddent yn llythyru yn gyson. Yn olaf, soniodd Rowland am lythyrau Evan James Williams (1903-45) o Gwmsychbant yng Ngheredigion a ddaeth yn enwog am ddarogan bodolaeth gronyn is-atomig y pion ac am ei gyfraniad enfawr i'r frwydr yn erbyn llongau tanfor yr Almaen yn yr Ail Ryfel Byd. *Ymlaen i'r dudalen nesa*

A Oedd Celtiaid?

Gwlad Geltaidd yw Cymru. Ymfalchïwn yn ein hen iaith Geltaidd, a'r tebygrwydd rhyngddi â'r Llydaweg – iaith Geltaidd arall. Cynhelir Cyngres Geltaidd bob blwyddyn, pan fydd cynrychiolwyr o Gymru yn ymuno gyda chynrychiolwyr o Lydaw, yr Alban, yr Iwerddon ac Ynys Manaw i ddathlu eu hetifeddiaeth Geltaidd.

Ond nid yw pobl hanes proffesiynol, archaeolegwyr a haneswyr fel ei gilydd, yn hoff o'r gair 'Celt'. Ni fyddwn am eich blino gyda dadleuon ysgolheigion, er mor frwd ydynt ar adegau. Cewch eu darllen ar y we os hoffech, a gweld yr ansicrwydd ysgolheigaidd a ddylid cyfeirio at y bobl dal, gwallt golau, ymladdgar a frwydrodd yn erbyn y Rhufeiniaid fel Celtiaid. Y bobl hynny'n sicr oedd yn gyfrifol am weithio haearn a metalau eraill, a'u haddurno gyda'r patrymau troellog a ddisgrifiwn fel 'patrymau Celtaidd' – ond ai Celtiaid oedden nhw? Ai yn eu hamser nhw y datblygodd mamiaith y Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd eraill? Neu a ydy'r ieithoedd hyn yn henach hyd yn oed na'r Oes Haearn, tua thair mil o flynyddoedd yn ôl? Ac felly ymlaen!

Efallai i'r ysgolheigion amheus hyn golli'r dydd. Mae arddangosfa gain yng nghynteddau parchus yr Amgueddfa Brydeinig ar hyn o bryd – a *'Celts: Art and Identity'* yw'r enw arni. Yno cewch weld campweithiau'r Oes Haearn, gan gynnwys rhai (er nid llawer) o Gymru. Daw'r gwrthrychau hyn o bob gwlad yn Ewrop – ac ar ddiwedd yr arddangosfa mae trafodaeth ddfyfyr ar y ffordd y defnyddid patrymau a symbolau 'Celtaidd' i gryfhau'r ymwybyddiaeth genedlaethol yn yr Alban ac Iwerddon yn ystod y ganrif a hanner ddiwethaf. Mae'r amgueddfa hefyd yn defnyddio cymysgchwch o'r ieithoedd Celtaidd a'r patrymau nodweddiadol i gloi ei harddangosfa.



Ond a ydy hyn i gyd yn berthnasol i'n cwm ni? Wedi'r cyfan does dim bryngaer o'r Oes Haearn ar un o fryniau'r ardal ac nid oes neb wedi darganfod gwrthrychau o'r cyfnod yn nhir ein bro. Er bod digon o dystiolaeth i bobl Oes yr Efydd fyw yma, prin dros ben yw'r dystiolaeth uniongyrchol am yr Oes Haearn. Does dim tystiolaeth gennym i gadarnhau'r hen hanes sy'n cysylltu Pont Caradog ger Deri â'r arweinydd Caractacus a heriodd y Rhufeiniaid pan ymosodon nhw ar dde Lloegr, ac a giliodd wedyn at lwyth ymladdgar y Silwriaid, y bobl oedd yn byw yn ne-ddwyrain Cymru, gan eu bod nhw, fel fe, yn barod i ymladd hyd yr eithaf yn erbyn y Rhufeiniaid.

Ond mae'n amlwg hefyd fod pobl wedi byw yn yr ardal hon yn yr Oes Haearn, er gwaethaf y diffyg tystiolaeth faterol. Mae digon o dystiolaeth o'r cyfnod hwnnw wedi ei chanfod yn y cymoedd o'n cwmpas, wedi'r cyfan. Efallai bydd rhywun o'r unfed ganrif ar hugain yn darganfod y ddolen gyswllt rhyngom â Caradog a'i filwyr. Mae gwrthrychau o'r Oes Haearn yn dal i gael eu darganfod, a hynny mewn mannau pur annisgwyl weithiau. Efallai caiff un ohonynt weld golau dydd eto, ar ôl treulio canrifoedd lawer ym mhridd ein Cwm Ni.

Dr Elin Jones

Roedd Williams yn ffisegydd gwyh gan ennill dau ddoethuriaeth o Fanceinion a Chaergrawnt cyn dod yn Athro Ffiseg yn Aberystwyth yn 1938. Treuliodd flwyddyn yn Copenhagen gyda Bohr ym 1933 a bu mewn cysylltiad cyson â'r ffisegydd enwog. Dengys hyn fod gan Gymru fach wyddonwyr o'r radd flaenaf oedd yn cydweithio gyda mawrion y byd gwyddonol yn ystod y cyfnod cyffrous lle gwnaed nifer o ddarganfyddiadau chwyldroadol.

Diolchwn o galon i Rowland a'i gyfaill Gareth am eu hymchwil ac am agor ein llygaid i gysylltiadau Cymreig Niels Bohr.

Dr Neville Evans

Clive Williams, Aberbargod



Cafodd nifer o'n darllenwyr fwynhad mawr o ddarllen atgofion Clive am ei waith dros yr iaith. Dyma fwy o hanesion ac, yn fwyaf arbennig, cawn wybod am yr hyn mae e'n ei wneud ar hyn o bryd.

Yr Urdd

Yn hydref 1986 agorodd Adran ac Aelwyd yr Urdd Bargod am y tro cyntaf yn y YMCA yng Nghilfach, ac yr oeddwn yn falch o fod yno i helpu, ynghyd â chymaint o bobl eraill a oedd mor barod i wirfoddoli eu hamser ar nos Wener.

Salwch

Yn anffodus, daeth fy holl weithgareddau i ben yn sydyn yn 1989 oherwydd salwch. Mae'n ymddangos fy mod wedi cymryd gormod ar fy hunan wrth imi geisio yn ofer i achub y busnes teuluol rhag cau. Arweiniodd hyn at doriad iechyd a'r angen i gymryd gorffwys cyflawn o bopeth. Yn ffodus, o fewn deuddeng mis roeddwn yn ddigon da i ddilyn gyrfa newydd - yn gweithio i'r Gwasanaethau'r Cymdeithasol yn Hafod Deg yn Rhymni, canolfan ddydd i bobl sy'n dioddef o salwch meddwl. Ond rwy'n dal angen bod yn ofalus o'r hyn yr wyf yn ei wneud

Fe wnes i fwynhau fy amser yn Rhymni a chofiaf am sgyrsiau rheolaidd gyda Mr Ifan Williams a Mrs Heulwen Williams. Ar ôl i Jane Hyde ddod i wybod fy mod yn gweithio yn Rhymni cefais alwad ganddi bob blwyddyn - i fod yn Siôn Corn yn Ysgol y Lawnt!


Ysgrifennu

Rydw i wedi troi yn fwy diweddar at ysgrifennu.

'The Tippler's Touring Guide to Wales' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014. Rwy'n gobeithio y bydd hwn yn helpu i hybu twristiaeth a'r diwydiant croeso yng 'Nghymru. Mae wedi ei werthu ar Amazon DU, UE, DE (yr Almaen) ac UDA.

The Gourmet's Choice of World Cuisines' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014 – sydd yn cynnwys ryseitiau o Gymru ac o wledydd Celtaidd eraill. Mae wedi ei werthu ar Amazon DU = Dyrnas Unedig = www.amazon.co.uk UE = Undeb Ewropeaidd = Amazon Europe (European Union) DE = Yr Almaen = www.amazon.de UDA = Unol Daleithiau America = www.amazon.com BR = Brasil = www.amazon.br

'Ceridwen's Spirituelle Journey Through Wales History' a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015 - wedi'i anelu at y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ac nad oes ganddynt wybodaeth helaeth o hanes Cymru, ond sy'n dymuno dysgu mwy. Rwyf wedi ysgrifennu'r nofel mewn ffordd y gallant fwynhau darllen a dysgu ar yr un pryd, ac wedi cynnwys nifer o eiriau Cymraeg a'u hystyron, enwau lleoedd Cymraeg, ynghyd â chyflwyniad i farddoniaeth Gymraeg a chaneuon adnabyddus. Y syniad oedd creu diddordeb yn yr iaith a diwylliant Cymru yn



ogystal ag yn ei hanes. Mae wedi ei werthu ar Amazon UDA, ac yr wyf wedi cymryd allan hysbyseb i ymddangos yn rhifyn mis Tachwedd/Rhagfyr o 'Ninnau' - Papur Cymry Gogledd America.

Mae'r tri llyfr ar gael ar fy ngwefan: www.mabgwent.cymru, gyda dolenni i Amazon.

Nesaf i fyny yw llyfr stori i blant - yn Gymraeg - gyda fersiwn Saesneg. Ond fe fydd hynny ar ôl i fi gymryd seibiant byr o ysgrifennu ac wedyn i fi ddechrau gweithio ar ddatblygu fy ngwefan, un a adeiladais fy hunan.

ANRHEG I'R IAITH

Ydych chi'n dal i chwilio am yr anrheg Nadolig perffaith? Ddim yn gwybod beth i'w roi i ffrind neu aelod o'r teulu? Beth am aelodaeth neu gyfraniad at waith Dyfodol i'r Iaith yn anrheg iddynt? Nid yn unig yn anrheg i'w roi ond hefyd yn anrheg a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lewyrch y Gymraeg. Wrth roi cyfraniad fe gewch gerdyn Nadolig pwrpasol i'w gyflwyno i gydnabod y cyfraniad ac fe gewch fanylion a newyddion rheolaidd am ein gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae Dyfodol i'r Iaith ar fin cychwyn ar ei phedwaredd flwyddyn ac mae cyfraniadau ein haelodau a'n cefnogwyr dros y blynyddoedd cyntaf wedi ein galluogi i gryfhau ein dylanwad drwy benodi dau swyddog rhan amser i arwain y gwaith lobïo a rhoi trefn weinyddol i'r mudiad. Rydym hefyd wedi creu Rhaglen Weithredu arloesol i'w chynnig i'r Llywodraeth ac i'r pleidiau gwleidyddol: *Creu Dyfodol i'r Gymraeg*. Mae hon yn sail i drafodaeth ymysg y pleidiau gwleidyddol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Beth sy'n arbennig am Dyfodol i'r Iaith? Rydyn ni am weld newid cyfeiriad o fynnu statws a hawliau i gynyddu niferoedd siaradwyr ac i ddefnyddio'r iaith yn y cartref a'r gymuned. Ein barn ni yw y bydd hyrwyddo a gweithredu egniol ac effeithiol yn y meysydd hyn yn trawsnewid rhagolygon yr iaith.

Ein nod yw cael swyddogion amser llawn i wneud y gwaith lobïo'n effeithiol a pharhaus. Trwy gynyddu incwm gallwn ni wneud hyn. Hyn fydd yn rhoi modd i ni weithredu'n fwy effeithiol eto ac fe all eich rhodd chi wneud gwahaniaeth i'r gwaith allweddol yma.

Os ydych yn dymuno ein cynorthwyo drwy brynu 'Anrheg i'r Iaith' neu gyfrannu'n bersonol at ein gwaith, gellir trefnu hyn drwy gysylltu gyda Meinir James ein Swyddog Datblygu drwy e-bost – meinir@dyfodol.net; ffôn – 07989 830128 neu gallwch ymweld â'n gwefan – www.dyfodol.net i archebu.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwn yn gallu ymfalchïo gyda'n gilydd, ymhen amser, ein bod wedi bod yn rhan o fudiad fydd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at lewyrch y Gymraeg.

Llawer o ddiolch ichi ymlaen llaw

Elinor Jones

Llywydd Dyfodol i'r Iaith

DYFODOL Llais i'r Iaith

ARHOLIADAU GORSEDD Y BEIRDD

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r Fenni y flwyddyn nesaf, beth am fynd ati dros y misoedd nesaf i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a thrwy hynny ddod yn aelod o'r Orsedd a chael cymryd rhan yn ei seremonïau a'i gorymdeithiau lliwgar?

Cynhelir yr arholiadau ar y Sadwrn olaf yn Ebrill a gallwch ddewis o blith nifer o feysydd i arbenigo ynddynt: Barddoniaeth, Cerddoriaeth, Iaith, a Rhyddiaith, ynghyd â meysydd arbennig i Delynorion, Datgeiniaid Cerdd Dant, ac Utganwyr.

Os hoffech fwy o fanylion am yr arholiadau a'r gwahanol feysydd astudio, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib yn: Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL (**e-bost:** wgwyn.lewis@btinternet.com), ac fe anfonaf gopi o lyfryn y **Maes Astudiaeth** atoch.

Beth am roi cynnig arni, felly, er mwyn i chi gael bod yn rhan o seremonïau Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni y flwyddyn nesaf?


Yr eiddoch yn gywir

Dr W Gwyn Lewis (Gwyn o Arfon)

Trefnydd Arholiadau Gorsedd y Beirdd

Colofn Dafydd Islwyn

I agor cyfarfod cystadleuol pentref fy mebyd, Rhoscefnhir, bob nos Nadolig fy mhlentyndod, canwyd yr emyn ‘Peraidd Ganodd Sêr y Bore’, emyn **Morgan Rhys (1716- 79), Cil y Cwm, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin**. Yn Ysgol Gynradd Pentraeth, ryw filltir dda o fy nghartref, cenid emyn Morris Davies (1796 -1876), Bangor. ‘Bugail Israel sydd ofalus’ Am ei dyner annwyl ŵyn’ adeg y Nadolig. Nid emynau am enedigaeth y Ceidwad a Christ yn derbyn plant oedd yr unig ganu oedd yn torri ar draws hwyl a sbri'r Nadolig.



Un Nadolig yn nosbarth Miss Olwen Jones, Trefor Newydd, a oedd yn organyddes yng nghapel Penygarnedd, Pentraeth, capel fy mebyd, fe ddysgwyd y dosbarth i ganu ‘Siôn Corn’, ‘Pwy sy’n dŵad dros y bryn/ Yn ddistaw, ddistaw bach?’ Flynyddoedd yn ddiweddarach y dysgais mai awdur y gân oedd John Glyn Davies (1870-1953), awdur Cerddi Huw Puw, Cerddi Robin Goch a Cherddi Portin-llaen. Bu’n byw am gyfnod yn Llandegfan, rhyw dair milltir o’m cartref i gyfeiriad Porthaethwy.

Yn 1958 y cynhaliwyd yr eisteddfod, cyfarfod cystadleuol olaf yn Y Rhos. Erbyn hynny roeddwn wedi clywed mwy o garolau Cymraeg a Saesneg diolch i wasanaeth carolau a naw llith Seisnig ei naws Ysgol Gyfun David Hughes, Biwmares. Onid yn Eglwys Santes Fair y dre honno y clywais garol y Ficer Prichard (1579-1644), ‘Awn i Fethle’m pawb dan ganu’. Yn yr eglwys honno, meddai Bobi Jones, ‘Crwydro Môn’ 1957, y cedwir arch Siwan, gwraig Llywelyn Fawr.

Ganol pum degau’r hen ganrif y taniwyd fy niddordeb mewn englynion Nadolig. Derbyniodd fy rhieni englyn Nadolig oddi wrth yr englynwr lleol Dyfran (1885-1963) yn ei lawysgrifen ar gerdyn pwrpasol. Dau ’Ddolig yn ddiweddarach clywsom Cynan (1895-1970) yn adrodd ei faled, ‘Baled y Pedwar Brenin’ ar y *wireless*. Baled y mae’n rhaid i mi ei darllen bob Nadolig a dwyn i go’ lais unigryw awdur ‘Mab y Bwthyn’, un o bryddestau cofiadwy’r ugeinfed ganrif.

Dros y blynyddoedd a thros hanner can Nadolig, rydw i wedi casglu degau ar ddegau o englynion y Nadolig yn llawysgrifen y beirdd. Bob Nadolig, mae derbyn englyn newydd yn brofiad Nadoligaidd cyfoethog yn cynnig ongl newydd ar yr hen, hen stori. Bob Nadolig byddaf wrth fy modd yn clywed canu, ‘A welaist ti’r ddau?’ W. Rhys Nicholas; ‘Carol y Crefftwr’ Iorwerth C. Peate a ‘Tua Bethlehem Dref’ Wil Ifan. Gan fy mod i wrth fy modd â Stori’r Bugeiliaid rwy’n gobeithio y Nadolig hwn glywed canu ‘Chwi Fugeiliaid Mwyn’ carol Thomas Parry. Mae’n siŵr nad oedd pob un ohonyn nhw yn rhai mwyn! ‘Adeg y Nadolig yw/ A’r ŵyl iawn i ganmol yw’, sylwodd Gwilym R. Jones (1903-1993). Dywedodd hefyd mai diddiwedd yw rhyfeddod y Nadolig.

A’r Gair a wnaethpwyd yn gnawd (Ioan 1:14)

Tybed ar adeg Gŵyl y Geni yr hoffech rannu atgof melys â mi?

Roeddwn ar ymweliad â’r teulu yn y Waunfawr, Caernarfon, ac fe es i gapel bach Seion, Llanfaglan ar lan y Fenni. Roedd y Parch R. O. G. Williams (Robin Dinmael) yr adeg hynny, yn darlithio ar y Nadolig.

Dechreuodd trwy ddweud ei fod bob Nadolig yn ceisio paratoi defnydd at Ŵyl y Geni gyda syniadau newydd, diddorol. Er mwyn rhoi cychwyn ar bethau fe ysgrifennodd frawddeg ar ddarn o bapur: “Dyma yw’r Nadolig”. Meddwl wedyn pam y frawddeg ac a oedd yna rywbeth neilltuol ynddi! Synfyfrio ac edrych arni a dim byd yn tycio ond wrth ddal i sylu’n ddiamcan a’r llythrennau ymgymysgu ac ymwau i’w gilydd er yn holl ddisynnwyr tybiodd Robin fod yna awgrym neu fod yna air arall wedi ymguddio yn y frawddeg fel anagram? Na, roedd yn amhosibl ond eto teimlodd fod yna rhywbeth.

Dyma estyn darn mawr o bapur ac ailysgrifennu'r frawddeg mewn rhes go fawr. Dyma ddechrau newid lle llythrennau a chroesi allan a newid yma a thraw. Ar ôl oriau a sawl darn o bapur fe ddechreuodd y gosodiad newydd gymryd lle ond daliodd Robin ei wynt rhag ofn chwalfa a'r gwaith yn ofer. Roedd "y" ar ôl ond fe benderfynodd ei rhoi fel urddas terfyn ac yn wir dyma'r wyrth a welodd...

DYMA YW'R NADOLIG YR YMGNAWDOLIAD

Wrth orffen a dymuno Nadolig Llawen fe bwysleisiodd y gair LLAWEN a dweud nad oedd dim byd yn rhagori ar yr ansoddair. Mae yn air pur ddewisol trwy'r Beibl ac wrth gwrs y neges glywodd y bugeiliaid "newyddion da o lawenydd mawr". Mae'r Sais yn cawellu'r cyfan "joy, delight, pleasure, gladness", nid rhyfedd nad yw llawenydd yr Ŵyl yn fflachio fel tinsel. Caiff Niclas y Glais grynhoi'r cyfan

A'r swp bach dwyfol yn y gwair yn glyd,
Yn "llond y nefoedd a llond y byd".

Nadolig Llawen i chi i gyd

Elwyn Parry

Annwyl Olygydd,

Ers dros deugain mlynedd bu'r Eisteddfod yn cydnabod ac yn anrhydeddu un sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig yn y gymuned, er cof am Syr Thomas Parry-Williams, un a wnaeth gymaint dros yr iaith a'n diwylliant yn ystod ei oes.

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gwirfoddoli i helpu pobl ifanc am flynyddoedd lawer rywle yng Nghymru? Hoffech chi enwebu rhywun sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yn eich hardal leol? Ydych chi'n awyddus i weld rhywun yn cael ei anrhydeddu ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol am eu gwaith cymunedol?

Efallai felly eich bod chi'n adnabod rhywun y dylid ei h/enwebu ar gyfer y Fedal yn 2016. Mae enwebiadau ar agor ar hyn o bryd, ac mae angen derbyn gwybodaeth am unrhyw un sy'n gymwys erbyn diwedd Ionawr.

Roedd Syr T. H. Parry-Williams yn gefnogwr brwd o'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn Awst 1975, yn dilyn ei farwolaeth ychydig fisoedd ynghynt, sefydlwyd cronfa i goffáu'i gyfraniad gwerthfawr i weithgareddau'r Eisteddfod. Gweinyddir y gronfa gan Ymddiriedolaeth Syr Thomas Parry-Williams.

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un yr hoffech eu henwebu ar gyfer Medal Syr T.H. Parry-Williams eleni, gallwch lawrlwytho'r ffurflen o wefan yr Eisteddfod – www.eisteddfod.cymru, neu cysylltwch â'r swyddfa ar 0845 4090 300.

Y dyddiad cau ar gyfer pob ffurflen enwebu yw 31 Ionawr, a chyflwynir y Fedal mewn seremoni arbennig ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau a gynhelir o 29 Gorffennaf – 6 Awst yn Y Fenni. Cyhoeddir enw'r enillydd ym mis Ebrill.

Mae nifer fawr o unigolion sy'n llawn haeddu derbyn yr anrhydedd, felly beth am fynd ati i enwebu rhywun yn eich cymuned chi?
Yn gywir iawn,

Elfed Roberts
Prif Weithredwr

Gwenllïan Carr Pennaeth Cyfathrebu

Colofn y Dysgwyr gyda Ann Lewis

Hawddamor ddarllenwyr! Dyma fi, Cadwgan ap Seisyll yn parhau â'r stori. Ar ôl cyfarfod â'r Cadeirydd a dod yn aelod o'r Pwyllgor roeddwn i *wrth fy modd*. Cyfarfodydd y pwyllgor oedd *uchafbwynt fy mywyd*. Yr un peth oedd *yn benbleth* i mi oedd pam fod Blodwen, gwraig y Cadeirydd yn edrych mor anhapus bob amser. *Yn fy marn i*, byddai cael y Cadeirydd fel *cymar yn baradwys*!



Wel, un dydd daeth aelod newydd i'r Pwyllgor, bachgen ifanc o'r enw Iestyn oedd yn dysgu Cymraeg. *O'r dechrau*, doeddwn i ddim yn hoffi Iestyn, nid achos ei fod e'n ifanc, nid achos ei fod e'n dysgu Cymraeg ond achos doedd e ddim yn *dangos parch* i'r Cadeirydd. Hefyd, ar ôl i Iestyn ddod i'r Pwyllgor dechreuodd Blodwen *wenu o dro i dro* ond wnes i ddim *sylwi* ar hynny ar y pryd.

Roedd hi'n ddechrau mis Rhagfyr ac roeddwn i wedi bod yn meddwl am anrheg Nadolig i'r Cadeirydd. Roeddwn i wedi gweld llyfr newydd am hanes yr Eisteddfod Genedlaethol – yr anrheg perffaith. Prynais i'r llyfr yn syth ac wedyn *doeddwn i ddim yn gallu aros i'w roi* i'r Cadeirydd. Roeddwn i'n siwr byddai *ar ben ei ddigon*.



Felly un prynhawn pan oedd y Llyfrgell ar gau, dyma fi'n brysio draw i dŷ'r Cadeirydd a Blodwen. *Canais i'r gloch* ond doedd dim ateb. Ar ôl munud neu ddwy canais i'r gloch eto. Dim ateb ond clywais i ryw sŵn bach tu mewn i'r tŷ. Felly edrychais i mewn trwy'r ffenestr *rhag ofn* bod *lladron* yno. A beth welais i? Ces i sioc enfawr, roedd *fy nghalon* yn curo fel drwm achos yn y lolfâ dyna ble roedd Blodwen a Iestyn ar y sofffa yn cusanu! Rhedais i ffwrdd *nerth fy nhraed*, rhedais i adref fel y gwynt. *Oddi ar y foment honno*, ddarllenwyr bach, rydw i mewn *argyfwng* mawr ac eisiau *eich cyngor*. Ddylwn i ddweud wrth y Cadeirydd beth welais i? Wnewch chi ysgrifennu at **Cwmni** i roi eich barn os gwelwch yn dda achos rydw i, Cadwgan ap Seisyll, *bron â drysu*! Os gwelwch yn dda?

Geirfa :

hawddamor! : hail! greetings! *uchafbwynt fy mywyd* : the high spot of my life
yn benbleth : a mystery, puzzle *yn fy marn i* : in my opinion *cymar* ; partner
paradwys : paradise *dangos parch* : show respect *gwenu* : smile *sylwi ar* : notice
doeddwn i ddim yn gallu aros : I couldn't wait *canais i'r gloch* : I rang the bell
rhag ofn : in case *lladron* : burglars *fy nghalon* ; my heart *oddi ar y foment honno* : since that moment
argyfwng : dilemma, crisis *eich cyngor* : your advice
bron â drysu : almost going mad

Idiomau :

wrth fy modd : in my element *o'r dechrau* : from the beginning *o dro i dro* : from time to time
ar y pryd : at the time *ar ben ei ddigon* : delighted (he) *nerth fy nhraed* : as fast as I could

Diolch Cadwgan ap Seisyll a gobeithio y bydd rhai ohonoch yn ysgrifennu i'r papur i roi eich cyngor iddo fe. Meddyliwch am ysgrifennu ato fel gwaith cartref! Hefyd, edrychwch ar y chwech idiom mae e wedi eu defnyddio yn ei stori a dysgwch nhw. Mae defnyddio idiomau yn ffordd wych o wella eich Cymraeg.

NADOLIG LLAWEN I CHI I GYD!!

COLEG GWENT: Ysgolion Haf

30 awr ar 8 lefel Yn cynnwys 14awr o wersi anffurfiol

01495 333710

Lleoliad	Diwrnod	Amser	Dyddiad
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	05-06/03/16
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	14-15/05/16
Campws Pontypŵl	Llun- Gwen	8.45-17.00	25-29/05/16
Llanbed	Gwen-Sul	9.00-17.00	01-03/07/16

Côr Cwm Ni

YMARFER



Pob nos Fawrth

7:00

Ysgol Trelyn
(Pengam)

COLEG GWENT : Ysgolion Undydd.

Pob Cwrs am 5 awr ar ddydd Sadwrn

Lleoliad	Dyddiad Ffôn	
Gorsaf Bŵer Cwmbrân	09/01/16	01633647647
Ysgol Cwm Rhymni	06/02/16	01633612245
Canolfan Trefynwy	27/02/16	01600712822
Canolfan GlynEbwy	16/04/16	01495455300
Gorsaf Bŵer Cwmbrân	21/05/16	01633647647

Clwb Llyfrau

"Cwmni"

Caffi'r Hen Lyfrgell

Mynedfa Parc Morgan Jones,
Caerffili

2 o'r gloch

Dydd Llun 7fed Rhagfyr

Croeso cynnes i Gymry Cymraeg
a dysgwyr profiadol.

Manylion gan Jan:

JanPenney@aol.com



Nos Iau, Rhagfyr 3ydd 2015

Dafydd Islwyn

"Englynion y Nadolig"

Clwb Rygbi Penallta, Ystad Mynach

7:00

Ar gyfer Cymry Cymraeg a
Dysgwyr lefelau Uwch/Hyfedredd

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach

Gwasanaeth Adfent

Carolau, darlenniadau, gweddïau,
lluniaeth

Copiau plant ac oedolion
o fersiwn printiedig
newydd Beibl.net!

2.30pm, pwnn Sul 6ed Rhagfyr

Croeso i Bawb

Clwb Cerdded

Pob Dydd Mercher 10 -12



01443 802832

Ymunwch â'r clwb cerdded. Am fwy o
wybodaeth cysylltwch â Morgan Roberts -
Swyddog Prosiect Llais Menter Caerffili:
morganroberts@mentercaerffili.cymru

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Borders Trio

Ysgol Lewis, Ystrad Mynach



2:30

Dydd Sadwrn
12fed o Ragfyr

£8

 **FFAIR NADOLIG**
CHRISTMAS FAIR

 **LLANCAIACH FAWR, NELSON** 

Rhagfyr 5ed December
11:00-15:00

Myndiad am ddim / Free Entry



GROTO SON CORN / HEINI O CYW /
SENWYN STORI PEPPA PIG /
CHWARAION LRDD / MINS PŴ /
CORAU YSGOLION / STONDINDAU /
ANRHEGION / CREU TORCH NADOLIG /
CELF A CHREFFT I BLANT / CAROLAU /
DIWYD A DDOO / DATHILU / A MWY...

SANTA'S GROTO / HEINI FROM CYW /
STORY TIME WITH PEPPA PIG /
LRDD SPORTS / MINCE PIES /
SCHOOL CHOIRS / GIFT STALLS /
CHRISTMAS WREATH MAKING /
CHILDREN'S ART AND CRAFTS /
FOOD AND DRINK / CAROLS /
CELEBRATING / AND MORE...

01443820913 bethanjones@mentercaerffili.org



 **Sadwrn Siarad Nadolig**
Christmas Saturday Chats

 Yn Ffair Nadolig Menter Caerffili / 
At Menter Caerffili's Christmas Fair

Rhagfyr 5 December
10:30-12:00


Caffi Maenordy Llancaiach Fawr Manor Café
Nelson (CF46 6ER)



Cyfle i gael paned, mins pei a sgwrs hefo siaradwyr
Cymraeg eraill. Croeso mawr i bawb.

An opportunity to have a cuppa, mince pie and a chat with
other Welsh speakers. Everyone welcome.

01443820913 bethanjones@mentercaerffili.org



Merched y Wawr Cwm Rhymni
Nos Fercher 16 Rhagfyr

7.30

Clwb Rygbi Caerffili, Parc Virginia,

NOSON

HYWEL GWYNFRYN

(gyda Cwmni a Menter Iaith Caerffili)

Cysylltwch â Marian Fairclough:

faircloughme@aol.com neu

02920 885151

Grŵp Arlunio Dydd Gwener

ARDDANGOSFA

Llyfrgell Bedwas

23ain o Dachwedd tan y Nadolig

Dewch i weld neu i brynu

Cyngerdd Nadolig

Côr Godre'r Garth
a
Chôr y Cwm

Nos Sadwrn, Rhagfyr 19
Saturday, December 19

Eglwys Santes Catherine /St Catherine's Church
Pontypridd
7:00yh/pm

Tocynnau / Tickets - £8.00 / £5.00
Cysylltwch â / Please contact:
07766 432869 / corgodrergerth@gmail.com
Elw tuag at Eisteddfod Yr Urdd Penybont-ar-Ogwr,
Taf ac Elái 2017